Nodiadau i Athrawon

BETH YW CYNLLUNIO?

RTPI
mediation of space • making of place
cyd drefnu gofod • creu cynefin

Mae'r nodiadau hyn yn cefnogi'r deunyddiau a'r daflen waith Beth yw Cynllunio? ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a 2, wedi'u cynhyrchu gan y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru).

Mae'r deunyddiau hyn yn cyflwyno byd cynllunio gwlad a thref ac yn cefnogi gweithgarwch ar ddaearyddiaeth mewn ysgolion.

Mae cynllunio yn faes sydd o ddiddordeb cyffredin i'r cyhoedd; mae'n cyffwrdd â phawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Taflen yw **Beth yw Cynllunio?** a fydd yn egluro rôl cynllunio yn ein hardaloedd trefol a gwledig. Mae'n dangos y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chynllunio.

BETH YW CYNLLUNIO?

RTPI

Wyt ti erioed wedi meddwl pam fod dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu hadeiladu mewn ffordd arbennig?

Pwy sy'n penderfynu ble mae'r adeiladau, y ffyrdd a'r parciau yn cael eu creu?

A yw hi'n bwysig i ti ble rwyt ti'n byw, yn mynd i'r ysgol, yn siopa, yn chwarae, a ble mae dy fam neu dy dad yn gweithio?

Cynhyrchwyd gan RTPI Cymru

www.rtpi.org.uk

BETH YW CYNLLUNIO?

Nod y daflen waith hon yw dy helpu i feddwl am y fan lle rwyt ti'n byw a gweld faint wyt ti'n ei wybod am dy ardal di.

Enw: _____

Dosbarth: _____

Lle rwyt ti'n byw

Cronfa Syniadau

Dinas – Caerdydd, Casnewydd, Abertawe?
Tref – er enghraifft, y Barri, Wrecsam, Caernarfon, Llandrindod, Llanelli, Doc Penfro, Trefynwy, Aberdâr – rhywle arall?
Pentref – er enghraifft, Pennard, Amlwch, Llanberis, Llangurig, Cwm – rhywle arall?

Wyt ti'n byw mewn dinas, tref, pentref, yng nghefn gwlad neu ar fferm? *Defnyddia'r Gronfa Syniadau i gael syniadau.*

Beth yw ei enw?

Beth sydd yna'n agos i'r fan lle rwyt ti'n byw?

Cronfa Syniadau

Siop fach	Caeau ffermydd	Canolfan hamdden
Man addoli, fel eglwys	Chwarel	Parc carafannau / maes gwersylla
Tai	Siop fawr neu archfarchnad	Parc
Fflatiau	Coleg	Bwyty
Tafarn	Gorsaf bŵer	Afon / llyn
Ysgol	Ffatri	
Swyddfa	Amgueddfa	**Beth arall?**
Ffermdy / adeiladau fferm	Llyfrgell	

Os wyt ti'n cerdded am 10 munud o'r fan lle rwyt ti'n byw, mewn unrhyw gyfeiriad, beth weli di? *Defnyddia'r Gronfa Syniadau i gael syniadau.*

Beth wyt ti ddim yn ei hoffi am dy ardal di?

Beth wyt ti ddim yn ei hoffi	*Pam?*

A yw'r ardal, y dref neu'r pentref lle rwyt ti'n byw wedi newid o gwbl?

A oes tai newydd, siopau newydd, a yw'r ffyrdd wedi newid, a oes mwy neu lai o goed a 'mannau gwyrdd'. Wyt ti wedi colli rhai o'r lleoedd lle roeddet ti'n arfer mynd i chwarae? – Beth sydd yno nawr? A oes rhywle newydd i chwarae nawr? – pwll nofio newydd neu le chwarae newydd?

Beth sydd wedi newid	Wyt ti'n hoffi'r newid neu ddim? (✔ or ✗)	Pam?

RTPI
mediation of space • making of place
cyd drefnu gofod • creu cynefin

Cynhyrchwyd gan RTPI Cymru

www.rtpi.org.uk

Y nod yw cwblhau'r **Daflen Waith** yn y dosbarth er mwyn cefnogi'r cynnwys ar Ddaearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 1 a 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n annog y plant i feddwl am yr amgylchedd o'u cwmpas. Sut beth ydyw? Sut mae'n gweithio? Mae hefyd yn eu hannog i feddwl am newidiadau sydd ar waith yn eu hardal hwy, a'u hasesu'n feirniadol.

Ar ddiwedd y nodiadau hyn, ceir rhestr o gwestiynau y gellir eu defnyddio i hwyluso trafodaeth yn y dosbarth.

Gellir defnyddio'r daflen waith i gymharu gwahanol ardaloedd, er enghraifft cymharu ardal drefol ac ardal wledig.

Y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol

Mae'r Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol (RTPI) yn sefydliad deinamig sy'n arwain y ffordd o ran creu lleoedd sy'n gweithio, a hynny yn awr ac yn y dyfodol fel ei gilydd. Mae'r RTPI yn sefydliad sy'n cynnig aelodaeth broffesiynol i gynllunwyr gwlad a thref yn y DU a thramor. RTPI Cymru yw braich y sefydliad yng Nghymru.

Mae'r RTPI yn deall bod pobl yn datblygu lleoedd. Yn yr un modd, deallwn hefyd bod lleoedd yn datblygu pobl. Rydym wedi ymrwymo i gyfoethogi ein hamgylchedd naturiol a dynol. Drwy ei aelodaeth, mae'r RTPI yn gweithio'n barhaus i greu ardaloedd a lleoedd y bydd pobl am fyw a gweithio ynddynt.

Mae cynllunio da yn cyfuno ymwybyddiaeth o'r pwysau cystadleuol sydd ar ein hamgylchedd adeiledig â'r gallu i reoli'r effeithiau gwirioneddol ar ein gofod.

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841.
Cyfeiriad cofrestredig: 41 Botolph Lane, London EC3R 8DL.

www.rtpi.org.uk

Nodiadau i Athrawon

Beth yw Cynllunio?

Mae dwy elfen i gynllunio – rheoli'r gystadleuaeth am ddefnydd o le, a chreu lleoedd sydd o werth ac sydd â hunaniaeth. Mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio ar leoliad ac ansawdd newidiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae cynllunio yn gweithredu ar bob graddfa bosibl, o strategaethau cenedlaethol neu ranbarthol ar raddfa fawr i weithio ar lefel leol i ddylunio a threfnu trefi, pentrefi a chymdogaethau.

Mae'n effeithio ar bawb, wrth greu polisïau sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer lleoedd a phenderfyniadau am wahanol faterion – yn amrywio o leoliad cyfleusterau mawr ar gyfer trafnidiaeth neu ynni neu ddatblygu cyflogaeth, i ddatblygu siopau, ysgolion, tai neu barciau y mae eu hangen ar gymunedau lleol.

Mae'r broses gynllunio yn ystyried y pethau sy'n werthfawr i ni, ac yn cefnogi ein defnydd parhaus o'n hamgylchedd er mwyn eu cynnal neu eu cyfoethogi – gan gynnwys uniondeb yr atmosffer, cyfyngu ar newid yn yr hinsawdd, darparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau dan fygythiad, adnabod treftadaeth ddiwylliannol fyd-eang a gwerthfawrogi trefluniau lleol.

Mae cynllunio yn cynnal y goreuon o'n hanes, ac ar yr un pryd yn annog arloesedd wrth ddylunio a datblygu adeiladau a chymdogaethau a fydd yn diwallu ein hanghenion yn y dyfodol.

Gwybodaeth bellach

Y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru)
Blwch SP 2465
Caerdydd CF23 0DS

Ffôn 029 2049 8215
E-bost: wales@rtpi.org.uk

Royal Town Planning Institute
41 Botolph Lane
London
EC3R 8DL

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cyhoeddi pecyn adnoddau My Square Mile ar gyfer ysgolion cynradd, sy'n cynnig astudiaeth fwy hirdymor. Mae'r pecyn hwn ar gael oddi wrth y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (o dan CA1) neu o wefan DCfW: www.dcfw.org

Mawr obeithiwn y bydd hwn yn ddefnyddiol i chi a'ch disgyblion.

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841.
Cyfeiriad cofrestredig: 41 Botolph Lane, London EC3R 8DL.

Nodiadau i Athrawon

Cwestiynau i hwyluso trafodaeth yn y dosbarth

Er mwyn gweld beth yn union yw diben cynllunio, cyfeiriwch at fan lle ceir llawer o adeiladau, megis canol tref llawn swyddfeydd, siopau, tai a fflatiau, mannau chwarae a bwytai, yn ogystal ag adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd.

Meddyliwch am y dref agosaf a'i thrafod. Beth sy'n dda neu'n wael, sut mae wedi newid, beth fyddai modd ei newid er gwell?

Dyma restr o gwestiynau i'w defnyddio yn y dosbarth. Nodir cwestiynau ategol i hwyluso'r drafodaeth.

- **A oes llawer o draffig yma?**

  A yw hyn yn peri problemau wrth groesi'r ffordd? A oes tagfeydd traffig sy'n golygu nad yw'r traffig yn symud yn gyflym? A yw'n swnllyd ac yn ddrewllyd? A ydych chi'n gweld llawer o feiciau?

- **A cheir unrhyw fannau sydd ar gau i geir, sy'n agored i gerddwyr yn unig?**

  A yw hi'n haws cerdded o gwmpas yn y mannau hyn? A yw'r mannau hyn yn well ar gyfer siopa? A yw hi'n ei gwneud yn anodd prynu pethau mawr o'r siopau os nad oes car yn gallu cyrraedd y siop?

- **Sut ydych chi'n cyrraedd y dref?**

  Ydych chi'n byw yn ddigon agos i gerdded? Os ydych chi'n mynd yn y car, a yw hi'n anodd parcio, ac a yw hi'n ddrud i barcio? A yw hi'n hawdd cyrraedd yno gan ddefnyddio'r bws neu'r trên? Sut beth yw defnyddio bws neu drên? Beth sydd orau – cerdded, gyrru neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?

- **Ydych chi'n meddwl bod yr ardal yn edrych yn braf?**

  Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n edrych yn braf / yn wael / wedi blino? Beth yw cyflwr yr adeiladau - da neu ddrwg? A oes yma goed / sbwriel / celf gyhoeddus?

- **Faint o goed neu blanhigion sydd o gwmpas?**

  A ydyn nhw'n gwneud i'r ardal edrych yn braf? Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig eu cael nhw mewn trefi? A ydyn nhw'n dda i'r amgylchedd? A ydyn nhw'n achosi unrhyw broblemau – e.e. colli dail yn yr hydref, neu'r gwreiddiau'n torri'r palmentydd?

- **A welwch chi unrhyw hen adeiladau?**

  A ydyn nhw'n edrych yn dda? Ydyn nhw'n adfeilio? A yw hi'n beth da cadw hen adeiladau hanesyddol?

- **A yw'r strydoedd yn lân neu a oes llawer o sbwriel yma?**

  Beth ydych chi'n meddwl am y sbwriel? Ydych chi'n meddwl y dylech chi roi eich sbwriel yn y bin bob tro? A yw lleoedd yn edrych yn brafiach os nad oes unrhyw sbwriel o gwmpas y lle?



- **Ydych chi'n meddwl bod y dref yn ddiogel?**

  Beth sy'n gwneud y dref yn ddiogel? A oes problemau yn ymwneud â thraffig / goleuadau stryd / strydoedd tywyll lle gallai pobl guddio?

- **Sut mae'n cymharu â threfydd eraill yr ydych chi wedi ymweld â hwy?**

  Ydych chi wedi bod i dref y tu allan i Brydain – sut mae'n cymharu â thref ym Mhrydain?

- **Beth yw'r prif wahaniaeth rhwng trefi mawr a threfi bach?**

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841.
Cyfeiriad cofrestredig: 41 Botolph Lane, London EC3R 8DL.